

Cynhyrchwyr Newydd: Gwybodaeth i Ymgeiswyr _ _

Cynhyrchwyr Newydd: Gwybodaeth i Ymgeiswyr _ _

Ar gyfer pwy mae'r cyfle hwn? _

Rydym yn chwilio am ddau Gynhyrchydd Newydd i ymuno â'r tîm Datblygiad Creadigol, i gefnogi datblygu gwaith newydd - yn bennaf trwy'r rhaglen Cyfnodau Preswyl ar Leoliad a Datblygiad Proffesiynol. Mae hwn yn gyfle i gynhyrchwyr ag ychydig yn unig o brofiad proffesiynol i ddatblygu eu sgiliau wrth gynhyrchu, tra'n tyfu eu rhwydweithiau proffesiynol a helpu artistiaid i greu gwaith newydd sbon.

Sut y bydd yn gweithio? _

Bydd y Cynhyrchwyr Newydd yn rhan bwysig o'r tîm Datblygiad Creadigol, sy'n sail i waith yr artistiaid yr ydym yn gweithio gyda nhw. Byddant yn cael eu cefnogi i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rôl y cynhyrchydd, meithrin eu sgiliau ymarferol, eu cysylltiadau a'u profiad yn y gwaith, gan sefydlu cysylltiadau parhaus gyda chronfa ddeinamig o artistiaid annibynnol. Byddant hefyd yn allweddol wrth sicrhau bod cynulleidfaoedd lleol yn gweld gwaith yr artistiaid hynny ac yn helpu i ddyfeisio'r camau nesaf ymarferol i gefnogi datblygiad y gwaith.

Bydd y Cynhyrchwyr Newydd yn gweithio gydag artistiaid sydd wedi cael eu dewis i weithio ar Gyfnodau Preswyl ar Leoliad a Labordai Datblygiad Proffesiynol, a byddant yn cael eu cefnogi i wneud hynny gan y tîm Datblygiad Creadigol.

Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymo i oriau llawn amser yn ystod cyfnodau o ddatblygiad dwys ar bob prosiect (fel arfer rhwng wythnos a phythefnos) a bod ar gael ar gyfer gwaith paratoadol yn ystod y cyfnod cyn hynny.

Byddwn yn recriwtio'r Cynhyrchwyr Newydd ar yr un pryd â recriwtio prosiectau Cyfnodau Preswyl ar Leoliad a byddwn yn cyflwyno'r Cynhyrchydd Newydd a'r artistiaid ar ddechrau'r prosiectau.

Pennir amserlenni ar gyfer pob prosiect trwy gyd-drafod rhwng yr holl bartion.

Ble fydd y Cynhyrchwyr Newydd yn gweithio? _

Bydd y Cynhyrchwyr Newydd yn gweithio ar brosiectau a fydd yn cael eu cynnal ar draws y wlad. Bydd ganddynt gysylltiad penodol â'r prosiectau sy'n cael eu datblygu trwy Gyfnodau Preswyl ar Leoliad, sydd â ffocws penodol ar weithgarwch yng Ngorllewin Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru.

A phryd y cynhelir y prosiectau? _

Rydym yn rhagweld y bydd pob prosiect yn digwydd rhwng Ionawr 2018 a Mehefin 2019, gyda'r mwyafrif yn digwydd o fewn y 12 mis cyntaf. Ar hyn o bryd, mae'n anodd bod yn fanwl gan fod angen i ni bennu anghenion a gofynion unigol pob prosiect a'r artistiaid sy'n gweithio arnynt.

Pwy all wneud cais? _

Cynhyrchwyr yng nghramau cynnar eu gyrfaedd neu artistiaid sydd â phrofiad o hunan-gynhyrchu ac sydd â diddordeb mewn symud i gynhyrchu yn fwy rheolaidd.

Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan gynhyrchwyr sy'n dod o Orllewin Cymru neu Ogledd Ddwyrain Cymru neu sy'n byw yno ar hyn o bryd.

Dylai ymgeiswyr fod â rhywfaint o brofiad cynhyrchu eisoes (naill ai ar gyfer artistiaid/cwmnïau eraill neu waith wedi'i hunangynhyrchu), brwdfrydedd am waith newydd a gwaith mewn datblygiad ac ymrwymiad i ddatblygu rôl y cynhyrchydd yng Nghymru.

Rhaid i'r holl artistiaid/cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan:

- fod yn 18 oed a throsodd;
- heb fod mewn addysg amser llawn ar hyn o bryd;
- heb fod yn cynnal prosiectau mewn cysylltiad ag ymchwil PhD; ac
- yn byw yng Nghymru neu'n gallu dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu gwaith yng Nghymru.

Beth sydd ar gael? _

Bydd pob Cynhyrchydd Newydd yn derbyn bwrsariaeth o £5,000 i dalu am eu cyfranogiad (tua 10 wythnos o waith) ynghyd â hyd at £1,000 i'w wario ar hyfforddiant a chyfleoedd 'Ewch i Weld' i weld gwaith pwysig a chwrdd â chynhyrchwyr eraill. Bydd costau teithio a llety yng Nghymru hefyd yn cael eu talu gan NTW.

Beth yw'r broses ymgeisio? _

I wneud cais, anfonwch CV cyfoes, a Llythyr Eglurhaol sy'n cynnwys:

- _ datganiad am pam rydych chi'n meddwl mai dyma'r cyfle iawn i gefnogi eich datblygiad ar hyn o bryd yn eich gyrfa;
- _ datganiad am eich dealltwriaeth o rôl y Cynhyrchydd Newydd;
- _ manylion eich profiad cynhyrchu;
- _ manylion cyswllt dau ganolwr sy'n adnabod eich gwaith; a
- _ datganiad am gysylltiad eich canolwyr â datblygu gwaith perfformio yng Nghymru.
- _ datganiad am yr hyn a welwch chi fel yr her fwyaf i'w goresgyn wrth gynhyrchu gwaith newydd yng Nghymru.

Hefyd, ystyriwch y meini prawf hanfodol a dymunol canlynol yn eich cais. _

Manyleb person _

Hanfodol:

- _ Ymdeimlad a diddordeb amlwg a chlr o ran creu gwaith newydd yng Nghymru.
- _ Profiad o gynhyrchu o leiaf ddau brosiect blaenorol (naill ai ar gyfer artistiaid /cwmnïau eraill neu waith wedi'i hunangynhyrchu),
- _ Profiad o reoli pobl a chyllidebau
- _ Y gallu i gefnogi syniadau pobl eraill yn ogystal â gallu arwain.

Dymunol:

- _ Sgiliau Cymraeg.
- _ Trwydded yrru lawn, glân.

Mi fydd hefyd angen i chi lenwi Ffurflen Cyfleoedd Cyfartal i fynd gyda'ch cais. Ewch os gwelwch yn dda i: <http://bit.ly/2zoWvOe>

Beth yw'r dyddiad cau? _

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd **Gwener 12 Ionawr 2018**.

Cynhelir cyfweiliadau ddydd **Gwener 26 Ionawr 2018** (lleoliad yn Ne Ddwyrain Cymru).

Cefnogir Cynhyrchwyr Newydd NTW gan:

JERWOOD CHARITABLE
FOUNDATION

Mae Sefydliad Elusennol Jerwood yn ymroddedig i roi arian refeniw i'r celfyddydau mewn modd dychmygus a chyfrifol, gan gefnogi artistiaid i ddatblygu a thyfu ar gamau pwysig yn eu gyrfaedd. Nod ei gyllid yw galluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ffynnu; i barhau i ddatblygu eu sgiliau, eu dychymyg a'u creadigrwydd gyda gonestrwydd. Mae'n gweithio gydag artistiaid ar draws ffurfiau celf, o ddawns a theatr i lenyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau gweledol. Am ragor o wybodaeth ewch www.jerwoodcharitablefoundation.org

Cysylltu _

Os ydych chi am drafod syniadau
neu ofyn cwestiwn i ni, cysylltwch!

Simon Coates

Pennaeth Datblygiad Creadigol

simoncoates@nationaltheatrewales.org

Gwenfair Hawkins

Cynorthwydd Datblygiad Creadigol


gwenfairhawkins@nationaltheatrewales.org

National Theatre Wales

30 Arcêd y Castell

Caerdydd

CF10 1BW

 +44 (0)29 2035 3070

 info@nationaltheatrewales.org

 nationaltheatrewales.org

 community.nationaltheatrewales.org

 [@NTWTweets](https://twitter.com/NTWTweets)

 [National Theatre Wales](https://www.facebook.com/NationalTheatreWales)

© 2017. All rights reserved.

Registered in England & Wales

Company Registration No. 6693227

Charity Registration No. 1127952